

# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Practis Deintyddol White Gables  
/Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi  
Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 16 Ionawr  
2018

Dyddiad cyhoeddi: 17 Ebrill 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth AGIC arall mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt, er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan fyddant wedi'u cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	18
4.	Beth nesaf? .....	20
5.	Sut rydym yn arolygu practisiau deintyddol.....	21
	Atodiad A- Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	22
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith .....	23
	Atodiad C- Cynllun gwella .....	25

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) archwiliad cyhoeddedig o Bractis Deintyddol White Gables yn 96 Ffordd Conwy, Bae Colwyn, LL29 7LE o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 16 Ionawr 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Safonau Iechyd a Gofal 2015, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

At ei gilydd, canfuom dystiolaeth fod Practis Deintyddol White Gables yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w cleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddgar.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddid digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth, a gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a dderbyniwyd
- Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth hwn yn cael ei reoli'n dda iawn, gyda systemau effeithiol i gefnogi rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis
- Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus iawn yn eu swyddi, roeddent yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, ac roedd ganddynt ymrwymiad cadarn i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd digon o gyfleusterau ar gael yn yr ystafelloedd triniaeth, ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus, ac wedi'u trefnu'n dda
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel
- Roedd cofnodion clinigol cleifion o safon uchel
- Roedd systemau ar waith ar gyfer llywodraethu a monitro ansawdd y gwasanaeth yn erbyn gofynion y rheoliadau.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ni nodwyd unrhyw welliannau.

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### **Cefndir y gwasanaeth**

Mae Practis Deintyddol White Gables yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Bae Colwyn . Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gan y practis dîm staff sy'n cynnwys pum deintydd, un hylenydd, chwe nyrs ddeintyddol, dau dderbynydd a rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol White Gables yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w cleifion gyda staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddgar.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

At ei gilydd gwnaethom dderbyn 30 o holiaduron wedi'u cwblhau. Cafodd y mwyafrif o'r holiaduron eu cwblhau gan gleifion hirdymor yn y practis (rhai sydd wedi bod yn gleifion am fwy na dwy flynedd).

Ar y cyfan, roedd adborth cleifion yn gadarnhaol iawn. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Mae holl aelodau fy nheulu yn derbyn gofal ardderchog yn y practis hwn; mae'r staff i gyd yn garedig, meddylgar a phroffesiynol. Rydym yn derbyn cyngor a gwybodaeth briodol. Nid oes gennyf ddim ond canmoliaeth am y practis hwn"*

*"Mae'r staff yn gyfeillgar ac yn barod i helpu. Mae ffioedd yn ymddangos yn rhesymol ac mae'r practis yn groesawgar ac yn lân"*

*"Mae bob amser wedi bod yn ardderchog, wedi bod yn dod ers yn blentyn bach ac ni fyddwn yn oedi rhag argymell White Gables i unrhyw un arall"*

*"Heb ei ail yw'r gofal a'r sicrwydd sy'n cael ei ddarparu. Yn enwedig i rywun nad ydynt yn hoffi mynd at y deintydd. Mae ef [y deintydd] mor ofalgar ac ystyriol ac yn cymryd amser gyda'i gleifion"*



*"Rwy'n hapus iawn gyda phob agwedd ar y gwasanaeth hwn yn y practis deintyddol hwn"*

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym na ellid gwella'r gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd rhai awgrymiadau gan gleifion yn cynnwys:

*"Mwy o apwyntiadau ar gyfer argyfwng er bod y deintydd bob amser yn ceisio dod o hyd i apwyntiad i mi"*

*"Apwyntiadau gyda'r nos"*

## **Cadw'n iach**

Roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd deintyddol neilltuedig ar gael, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cynorthwyo i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd amryw bosteri a dalenni gwybodaeth yn cael eu harddangos, a oedd yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol a gwybodaeth am iechyd y geg. Roedd arwyddion "dim ysmegu" yn cael eu harddangos yn y practis. Roedd rhestrau prisiau ar gyfer y GIG a thriniaeth breifat hefyd yn cael eu harddangos yn amlwg yn yr ystafell aros/dderbynfa.

Nododd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

## **Gofal ag urddas**

Heb eithriad, roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis. Roedd sylwadau a roddwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn canmol y staff yn cynnwys y canlynol:

*"Mae pawb yn barod i helpu ac yn hyfryd"*

*"Mae'r holl staff yma yn gyfeillgar iawn"*

*"Gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol bob amser"*

Gwelsom hefyd y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd yr holl staff yn ei ddefnyddio wrth ymdrin â chleifion.

Roedd gan y practis drefniadau i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys manau i gleifion gynnal sgysiau preifat â staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu derbyn yn breifat i ffwrdd o gleifion.

Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

### **Gwybodaeth i gleifion**

Dywedodd bron yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cyfrannu (cymaint ag yr oeddent eisiau) at unrhyw benderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud ynglŷn â'u triniaeth, a'u bod wedi derbyn gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth sydd ar gael.

Cadarnhaodd y mwyafrif o gleifion a oedd wedi derbyn triniaeth yn y practis fod cost eu triniaeth bob amser yn cael ei wneud yn glir iddynt, a'u bod yn deall sut gafodd cost eu triniaeth ei chyfrifo.

Canfuom hefyd dystiolaeth o gynllunio triniaethau ac opsiynau'n cael eu nodi o fewn sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt. Roedd hyn yn golygu fod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis yn cael ei harddangos o gwmpas y dderbynfa a'r ystafelloedd aros. Roedd gan y practis hefyd lyfryn gwybodaeth i gleifion y gallai cleifion fynd ag ef adref gyda hwy.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Roedd cymysgedd da o staff yn gweithio yn y practis sy'n gallu cyfathrebu'n ddwyieithog gyda chleifion. Roedd staff yn dangos eu bod yn siaradwyr Cymraeg trwy wisgo bathodyn Cymraeg.

Cadarnhaodd y mwyafrif o gleifion a wnaeth gwblhau holiadur a oedd yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg eu bod bob amser yn medru siarad â staff yn eu dewis iaith. Nododd dau o gleifion sy'n siarad Cymraeg yn yr holiaduron y byddent yn hoffi gweld mwy o wybodaeth ddwyieithog i gleifion.

Dywedodd pob claf nad oedd yn siarad Cymraeg wrthym eu bod bob amser yn medru siarad â staff yn eu dewis iaith.

### **Gofal amserol**

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu'n brydlon bob amser, a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Cadarnhaodd y mwyafrif o gleifion a wnaeth gwblhau holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau os oedd ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Roedd rhif ffôn brys ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau ar gael pe byddai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau ar gleifion. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos ger y brif fynedfa, yn cael ei roi ar neges peiriant ateb y ffôn ac roedd yn cael ei gynnwys yn nhaflen wybodaeth y claf.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfuom fod yr holl opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a bod pob claf wedi rhoi cydsyniad i'w driniaeth.

Roedd hanes meddygol cleifion yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn ystod pob ymweliad. Cadarnhaodd pob claf, ac eithrio un, a wnaeth gwblhau holiadur fod y deintydd yn holi ynglŷn â'i hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

### **Hawliau pobl**

Gwnaethom sylwi bod polisi cydraddoldeb penodol ar waith yn y practis.

Mae'r practis wedi'i leoli ar y llawr daear ac mae'n gwbl hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Gallai defnyddwyr cadeiriau olwyn gael mynediad i'r dderbynfa, yr ystafell aros, y cyfleusterau toiled a'r holl ystafelloedd triniaeth ddeintyddol.

### **Gwrando a dysgu o adborth**

Dyweddodd un rhan o dair o'r cleifion a wnaeth gwblhau holiadur wrthym na fyddent yn gwybod sut i godi pryder neu gŵyn am y gwasanaethau yr oeddent yn eu derbyn yn y practis deintyddol. Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith yn cwmpasu triniaeth breifat a GIG. Roedd y weithdrefn ar gyfer gwneud cwyn a sut i leisio pryder yn cael ei arddangos yn amlwg i gleifion. Roedd y manylion hefyd wedi'u cynnwys ar y daflen wybodaeth i gleifion.

Gwnaethom drafod dulliau'r practis ar gyfer casglu adborth gan y cleifion; sef darparu holiaduron i gleifion yn yr ystafell aros. Dywedodd y practis wrthym y caiff yr adborth ei drafod mewn cyfarfodydd tîm. Gwnaethom gynghori'r practis i arddangos dadansoddiad o adborth cleifion er mwyn dangos i gleifion bod eu

hadborth wedi cael ei gofnodi, a bod camau wedi'u cymryd i weithredu ar yr adborth er mwyn gwella dysgu a gwasanaethau, a cytunodd y practis i wneud hyn.

Dywedodd mwyafrif y cleifion a wnaeth gwblhau holiadur wrthym fod y practis deintyddol wedi gofyn iddynt am eu barn ynglŷn â'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yno, er enghraifft, trwy holiaduron cleifion.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn cael ei redeg yn dda ac yn bodloni'r safonau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff a chleifion.

Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn olau ac yn awyrog.

Canfuwyd gennym fod cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

### **Gofal diogel**

#### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn, y tu mewn a'r tu allan. Yn ystod taith o'r adeilad gwelsom fod yr holl ardaloedd yn lân iawn, yn daclus ac nid oeddent yn cynnwys unrhyw rwystrau amlwg.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd un toiled deuryw at ddefnydd cleifion a staff. Roedd arwyddion at y cyfleuster ac roedd yn edrych yn lân iawn.

Gwnaethom nodi fod profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal yn rheolaidd i sicrhau bod yr holl ddyfeisiau bach yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod trwy'r adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd brys yn amlwg, ac roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn glir.

Canfuom fod yr holl gemegau yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un yn cael ei adael mewn man cyhoeddus. Roedd ffeil ar gael yn cynnwys nifer o daflenni data yn ymwneud â Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd ac roedd asesiadau risg perthnasol ar waith.

Roedd system ar waith yn y practis ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi cael ei ddioli i'r bagiau/cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir a'i fod yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu.

### **Atal a rheoli heintiau**

Câi offerynnau deintyddol eu dadheintio yn yr ystafelloedd triniaeth ac roeddem yn fodlon bod y trefniadau a oedd ar waith mor effeithiol a phriodol ag y gallent fod o ystyried nad oedd gan y practis ystafell ddadheintio neilltuedig ar wahân. O fewn yr ystafelloedd triniaeth roedd ardaloedd dynodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio. Dangosodd staff y broses ddadheintio a gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos fod yr holl staff clinigol wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio. Canfuom hefyd fod y gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer glanhau, sterileiddio a storio offerynnau yn unol â'u polisi dadheintio cyfredol a'r canllawiau arfer gorau diweddaraf.

Cawsom wybod gan y practis fod cynlluniau ar waith i osod ystafell ddadheintio neilltuedig ar wahân fel rhan o'u rhaglen adnewyddu. Gwelsom y cynlluniau oedd wedi cael eu llunio a oedd gan y practis ar waith.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau yn rheolaidd yn unol ag argymhellion WHTM 01-05.

Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol ar waith i leihau'r risg o groesheintio er mwyn diogelu cleifion a staff.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Roedd gan y practis weithdrefnau da ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion.

Roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd. Dywedwyd wrthym gan y practis fod un aelod o staff ar fin adnewyddu ei hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd a gwelsom dystiolaeth fod hwn wedi'i drefnu ar gyfer Mawrth 2018. Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf cymwys.

Roedd cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn cael eu storio'n ddiogel ac mewn lleoliad a oedd yn sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i wirio'r offer a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng i sicrhau bod eu dyddiadau dod i ben yn gyfredol a'u bod yn barod i'w defnyddio.

### **Diogelu plant ac oedolion mewn perygl**

Canfuwyd gennym fod gan y practis bolisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Dywedwyd wrthym fod yr holl staff yn y practis ar fin adnewyddu eu hyfforddiant a bod hyn wedi'i drefnu ar gyfer y diwrnod canlynol yn y practis.

Gwnaethom gadarnhau bod gan yr holl staff perthnasol wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a'u bod wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

### **Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Gwnaethom edrych ar yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom sylwi bod yr ystafelloedd triniaeth wedi'u cynllunio a'u trefnu i helpu'r tîm i weithio'n effeithlon, ac roeddent yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da.

Gwelsom rwyg bach iawn ar un o'r cadeiriau deintyddol a chawsom sicrwydd ar lafar gan y prif ddeintydd fod cynlluniau ar waith i'r gadair gael ei hatgyweirio cyn gynted ag y bo modd. Dywedwyd wrthym fod y practis yn ceisio cael dyfynbrisiau ar hyn o bryd.

Roedd yr holl offer radiolegol yn cael eu cynnal a'u cadw ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr holl staff clinigol.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal asesiadau risg ac archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau pelydr-X yn rheolaidd.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau wedi cael eu cwblhau a/neu eu trefnu gan y practis.

### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

Trwy drafod â staff, fe'n hysbyswyd bod adolygiadau gan gymheiriaid rhwng staff clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u bod yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion.

Cadarnhaodd y practis fod ganddynt gynlluniau ar waith i ddefnyddio offeryn Deoniaeth Cymru, sef y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. Mae hwn yn ddull hunanwerthuso sy'n galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar sut mae'n gweithio, gan alluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a'r gofal a ddarperir mewn amrywiaeth o feysydd.

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at y sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat. Roedd polisi diogelu data ar waith.

### **Cadw cofnodion**

Roedd tystiolaeth bod y practis, yn gyffredinol, yn cynnal cofnodion clinigol o safon uchel.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfod bod nodiadau a oedd yn ymwneud â gofal cleifion yn cynnwys gwybodaeth ddigonol o ran trafodaethau a gynhaliwyd am opsiynau triniaeth, costau, risgiau a manteision, a sut y cafwyd cydsyniad y claf. Roedd tystiolaeth hefyd o gynllunio triniaeth a, lle bo'n ofynnol, cynllun triniaeth yn cael ei roi i gleifion. Gwnaeth yr holl ddeintyddion ddogfennu fod cyngor sgrinio canser a chyngor ar roi'r gorau i ysmegu wedi cael ei roi.

Canfuom nad oedd y rhif swp a'r dyddiad dod i ben ar gyfer anesthetig lleol bob amser yn cael eu cofnodi. Gwnaethom drafod hyn gyda'r practis a chawsom wybod eu bod wedi stopio cofnodi'r wybodaeth hon yn ddiweddar yn dilyn canllawiau wedi'u diweddarau gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Nid yw cofnodi rhif swp a dyddiad dod i ben yn orfodol. Fodd bynnag, mae'n cael ei argymhell fel arfer gorau. Gwnaeth y practis ein hysbysu y byddant yn



ailddechrau cofnodi rhif swp a'r dyddiad dod i ben ar gofnodion cleifion ar unwaith.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom dystiolaeth bod y practis hwn yn un a oedd yn cael ei redeg yn dda iawn, gydag ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a rhoi sylw i fanylion.

Roedd amrediad o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddi ac yn gymwys wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd yn effeithiol ac yn gymwys yn ei rôl. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers llawer o flynyddoedd ac roedd perthynas dda rhyngddynt. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus wrth godi unrhyw faterion neu bryderon yn uniongyrchol gyda'r rheolwr practis neu'r prif ddeintyddion.

Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Gwelsom ffolderi sefydlu staff wedi'u cwblhau ac roedd y rhain wedi'u trefnu'n dda. Roedd gan yr holl staff fynediad at bolisiâu a gweithdrefnau.

Gwelsom hefyd fod gan yr holl staff fynediad at amrediad eang o hyfforddiant a bod hyn yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom hefyd dystiolaeth o arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd tîm rheolaidd.

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom fod eu tystysgrifau cofrestru gydag AGIC wedi'u harddangos mewn lle amlwg, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwneidd Hepatitis B yr holl staff sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith, a chanfuom eu bod yn adlewyrchu arfer gwirioneddol. Roedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cynnwys dyddiad adolygu a / neu roedd y fersiynau wedi'u rheoli gyda llofnodion staff, gan ddangos bod y rhain wedi cael eu darllen a'u deall.

Canfuom fod y practis yn arddangos eu manylion cyswllt brys a'u horiau agor ar fynedfa'r adeilad. Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion hefyd yn cael eu harddangos yn glir.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau practisau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](http://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardsen.pdf) <<http://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardsen.pdf>>. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made) <<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made>> a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made) <<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made>>. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](http://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/3232/contents/made) <<http://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/3232/contents/made>>, [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/contents/made) <<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/contents/made>>, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis 'Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol' <<https://www.gdc-uk.org/professionals/standards>>.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

<b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>	<b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion</b>	<b>Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder</b>	<b>Sut cafodd y pryder ei ddatrys</b>
Ni nodwyd pryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Practis Deintyddol White Gables

**Dyddiad yr arolygiad:** 16 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion a oedd yn gofyn am sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**





## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth: Practis Deintyddol White Gables**

**Dyddiad yr arolygiad: 16 Ionawr 2018**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Nid oes angen i'r practis gwblhau cynllun gwella				
<b>Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol</b>				
Ddim yn berthnasol				
<b>Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>				
Ddim yn berthnasol				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**